

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Iau, 17 Rhagfyr 2020

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Mawrth, 22 Rhagfyr 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 31 Rhagfyr 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 4 Ionawr 2021.

Presennol: Y Cyngorwyr R Dew (ar gyfer eitemau 1 i 3 yn unig), Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn Bresennol: Y Cyngorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Aled M. Jones, Gwilym O. Jones, R.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees

Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad.

(5:00 y. p. i 6:30 y. p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni (Ysgol Talwrn a Ysgol y Graig) Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.• Awdurdodi Swyddogion i symud i ran nesaf y broses a nodir yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 a chyhoeddi rhybudd statudol am gyfnod o 28 diwrnod yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.• Awdurdodi Swyddogion i ymgymryd ag ymatebion i'r rhybudd statudol gan lunio adroddiad gwrthwynebiadau (os oes gwrthwynebiadau) i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd.

	<ul style="list-style-type: none"> Awdurdodi Swyddogion i ailgyhoeddi'r Aseiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn bwrw ymlaen â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni (Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir) Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo'r cynnig i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae. Awdurdodi Swyddogion i weithredu'r penderfyniad cyn gynted ag y bo modd a nodi bod ei weithrediad y tu allan i ddisgwyliadau'r Côt Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Awdurdodi Swyddogion i ailgyhoeddi'r Aseiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn bwrw ymlaen â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Yn amodol ar y penderfyniad ar Eitem 4 item -Ysgol Bodffordd a Corn Hir, i ofyn am awdurdod y Pwyllgor Gwaith i brynu tir ar gyfer datblygiad Ysgol Gynradd Corn Hir newydd yn
------------------------	---

	Llangefni Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad ynglyn â phrynu tir i adeiladu ysgol gynradd newydd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Hwyluso datblygu Ysgol Corn Hir newydd, Llangefni
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes